# NODYN CANLLAW
# Y GWASANAETH CYNGOR CYN GWNEUD CAIS

## 1. Beth yw'r gwasanaeth ?

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyngor a gwyboda ffurfiol ysgrifenedig i chi ynghylch eich datblygiad arfaethedig, cyn i chi gyflwyno cais. Cynigir y gwasanaeth sydd yn addas i'r pwrpas ar gyfer yr amrywiaeth o ddatblygiadau mawr a bach o fewn Ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd. Y pwrpas yw darparu gwell gwasanaeth i'n cwsmeriaid, gwella ansawdd ceisiadau a chyflymu'r amser mae'n cymryd i wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio.

## 2. Sut alla i elwa o'r gwasanaeth hwn?

Gallwn roi cyngor a gwybodaeth arbenigol i chi ar y materion amrywiol yr ydych angen eu hystyried cyn gwneud cais. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cadarnhau os yw'r datblygiad angen caniatâd cynllunio neu beidio

**Gyda datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio:**

- Rhoi eglurder am ba bolisïau / safonau sy'n berthnasol i'ch datblygiad
- Adnabod yn gynnar yn y broses unrhyw angen am fewnbwn arbenigol (e.e. ynghylch adeiladau rhestredig, coed, y dirwedd, sŵn, trafnidiaeth, tir wedi'i halogi, ecoleg neu archaeoleg)
- Eich helpu i gyflwyno cais sydd yn gyflawn ac yn electroneg ac i safon dderbyniol, gan osgoi oedi yn ystod y cam cofrestru / dilysu neu gael ei wrthod yn gynnar oherwydd nad oes gwybodaeth ddigonol wedi'i chynnwys
- Eich cynghori i baratoi cais ddylai, os ydych yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cyngor a roddwyd, gyflymu'r broses o benderfynu eich cais
- Yn gallu arwain at ostyngiad yn yr amser a dreulir gan ymgynghorwyr proffesiynol yn ogystal ag arbed costau, wrth iddynt baratoi cynigion
- Eich cynghori pan fo egwyddor y datblygiad yn annerbyniol, gan arbed y gost o wneud cais i chi

## 3. Beth fydd cost y gwasanaeth yma?

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n codi ffi (heblaw am yr eithriadau a nodir) ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn unol â'r graddfeydd ffioedd yn Atodiad1.

## 4. Y broses ar gyfer gofyn am gyngor cyn cyflwyno cais neu ymholiad cyffredinol.

**Cam 1**
**Ymholiad dechreuol**

Rhaid cyflwyno eich cynnig ar y ffurflen gofyn am gyngor cyn cyflwyno cais, (Atodiad 2 o'r Nodyn yma) gyda'r ffi berthnasol a'r wybodaeth y cyfeirir ati yn y nodyn canllaw sydd gyda'r ffurflen. Gellir lawrlwytho'r ffurflen yn www.gwynedd.llyw.cymru, neu ofyn am gopi drwy ffonio 01766 771000

**Cyfeiriad:**
Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA
**E-bost:**
Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
**Cofrestru ar y We?**
www.gwynedd.gov.uk / 01766 771000

**Cam 2**
**Cyswllt gan y Cyngor**

O fewn 5 diwrnod gwaith byddwn yn cydnabod derbyn eich ffurflen a byddwn yn cadarnhau'r canlynol:

- Os oes angen rhagor o wybodaeth gennych cyn y gallwn ymateb neu er mwyn hwyluso trafodaethau;
- Enw'r Swyddog Cynllunio fydd yn delio gyda'ch ymholiad;
- Gyda datblygiadau mwy, cadarnhau os oes angen unrhyw swyddog arbenigol, neu swyddogion o asiantaethau eraill yn rhan o'r trafodaethau.

**Cam 3**
**Cyfarfod**

Os yw Swyddog yn cadarnhau bod angen cyfarfod, disgwylir y bydd yn cael ei gynnal o fewn 21 diwrnod o ddyddiad derbyn yr ymholiad dechreuol (hyn yn ddibynnol ar argaeledd Swyddogion perthnasol). Fel arfer bydd y cyfarfod yn cael ei drefnu yn Swyddfeydd y Cyngor ym Mhwllheli, Caernarfon, Bangor neu Dolgellau neu ar y safle os yn angenrheidiol.

**Cam 4**
**Darparu cyngor**

Byddwn yn darparu cyngor ffurfiol ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o ddyddiad cofrestru eich cais am gyngor cyn cyflwyno cais (neu o fewn 21 diwrnod o ddyddiad cyfarfod os yw swyddog o'r farn bod angen un), fydd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chanllawiau ynghylch y canlynol:
Os oes angen caniatâd cynllunio neu beidio
**Gyda datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio:**

- Hanes cynllunio perthnasol y safle;
- Adnabod polisïau a chanllawiau cynllunio perthnasol;
- Adnabod cyfyngiadau cynllunio;
- Gwybodaeth ynghylch goblygiadau cynllunio posib;
- Cysylltiadau priodol gyda sefydliadau eraill, er mwyn eich galluogi i gysylltu â nhw'n uniongyrchol cyn gwneud cais cynllunio;
- Gyda cheisiadau mwy, cynnal cyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r sefydliadau perthnasol;
- Y ffi gynllunio a'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn dilysu'r cais;
- Crynodeb ysgrifenedig ffurfiol, diragfarn, o farn y Swyddog Achos.
- Dvfarniad ffurfiol

**Gall y Gwasanaeth Cynllunio atal rhag cynnig cyngor neu gynnal cyfarfod os nad yw'r wybodaeth sydd angen i chi ei ddarparu cyn y cyfarfod gan gynnwys y ffi cywir (os yn berthnasol) wedi'i chyflwyno neu os yw'r wybodaeth yn annigonol.**

## 5. Sut y byddwn yn darparu'r gwasanaeth i chi?

### Y gwasanaeth ar gyfer y mwyafrif o ddatblygiadau

Bydd y Cyngor yn gweithredu egwyddorion y Dull Tîm Datblygu er mwyn ymdrin â'r cyngor cyn gwneud cais gyda bob math o ddatblygiadau, fel y gellir ymgorffori barn pob sefydliad perthnasol (ble bo hynny'n ymarferol bosib), yn y cyngor ffurfiol a ddarperir.

Gyda datblygiadau strategol neu fawr eu natur, rydym yn cydnabod fod y Dull Tîm Datblygu yn hyd yn oed mwy perthnasol er mwyn cynghori datblygwyr ar eu cynlluniau wyneb i wyneb ac yn ysgrifenedig. Bydd y math yma o ddatblygiadau'n cynnwys yr hyn a ddiffinnir fel prif ddatblygiadau, datblygiadau mawr a datblygiadau mawr iawn neu gymhleth (Gweler Atodiad 1). Byddwn yn darparu gwasanaeth Siop Un Stop i ddatblygwyr sydd â bwriad cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y categorïau yma o ddatblygiad ac yn apwyntio Swyddog Cyswllt Tîm Datblygu i gydlynu hyn.

### Cytundebau Perfformiad Cynllunio (CPC)

Bydd y defnydd o'r drefn cynnig cyngor cyn cyflwyno cais a Thîm Datblygu yn ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau, ond ar gyfer datblygiadau mawr iawn a chymhleth (Gweler Atodiad 1), cynigir trefniant Cytundeb Perfformiad Cynllunio (CPC) fel fframwaith ar gyfer hyn. Mae mwy o wybodaeth am CPC yn Atodiad 3.

## 6. Beth fydd yn digwydd os cyflwynir cais yn seiliedig ar y cyngor?

Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau fod:

- Y swyddogion a ddarparodd y cyngor cyn gwneud cais yn ymdrin â'r cais (ble bo hynny'n bosib)
- Unrhyw gyngor a ddarperir cyn gwneud cais yn cael ei ystyried yn ofalus wrth wneud penderfyniad neu argymhelliad ar gais, gyda'r pwysau a roddir yn ddibynnol ar unrhyw newid neu beidio mewn amgylchiadau a gwybodaeth
- Y cais yn cael ei benderfynu mewn ffordd sy'n gyson â'r cyngor a roddwyd yn ystod y cam cyn gwneud cais, neu fe nodir yn glir pam nad yw hyn yn bosib (e.e. amgylchiadau newydd)

Dylid nodi hefyd y gall y pwys a roddir ar y cyngor cyn gwneud cais ostwng dros amser, gan y gall amgylchiadau neu bolisi cynllunio newid. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â dechrau negodi yn ystod y cam wedi cyflwyno'r cais, os yw manylion y cais a gyflwynir yn groes i'r cyngor a roddwyd.

## 7. Sut ydym yn gweinyddu'r wybodaeth a roddir cyn gwneud cais?

Byddwn yn cynnal a chadw cofnod priodol o'r trafodaethau a'r cyngor a roddwyd er ystyriaeth os cyflwynir cais yn y dyfodol.

## YMWRTHODIAD

**Rhoddir unrhyw farn neu safbwynt a fynegir yn ddidwyll, ond heb ragfarnu'r ystyriaeth a roddir i gais cynllunio. Ni all cyngor a ddarparwyd cyn gwneud cais glymu'r awdurdod cynllunio lleol i ddeilliant penodol. Pan gyflwynir cais cynllunio ffurfiol ni ellir gwneud y penderfyniad terfynol hyd nes bod y Cyngor wedi ymgynghori â phobl leol, ymgynghoreion statudol ac unrhyw barti arall â diddordeb. Yn unol ag Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, byddwn yn penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Hefyd, dylech fod yn ymwybodol na all swyddogion warantu'r penderfyniad ffurfiol terfynol a wneir ar gais.**

# Atodiad 1 – Graddfeydd Ffioedd

| Ymholiadau Cyn Gwneud Cais – angen cwblhau ffurflen cyn gwneud cais | Cyngor ysgrifenedig | | | Pob cyngor dilynol a chyn pen 12 mis sydd yn welliant ar yr un safle a math o ddatblygiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ffi/Pris Eithro TAW | TAW @20% | Ffi/Pis yn cynnwys TAW | Ffi/Pris Eithro TAW | TAW @20% | Ffi/Pis yn cynnwys TAW |
| **Ceisiadau Deiliaid Tŷ** | | | | | | |
| Ceisiadau Deiliaid Tŷ - Unrhyw geisiadau sy'n gysylltiedig gyda annedd sengl (ac eithrio fflatiau) | £25 | - | - | £22.50 | £4.50 | £27.00 |
| **Anheddau newydd** | | | | | | |
| Anheddau newydd (1 i 9) neu pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu yn anhysbys, fod arwynebedd y safle ddim mwy na 0.49 hectar. Nid oes angen ffi ar gyfer ty fforddiadwy unigol os yw'r angen wedi ei brofi. | £250 | - | - | £112.50 | £22.50 | £135.00 |
| Anheddau newydd (10 i 24) neu pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu yn anhysbys ac mae arwynebedd y safle yn 0.5 i 0.99 hectar | £600 | - | - | £270.00 | £54.00 | £324 |
| Anheddau newydd (mwy na 24) neu pan fo nifer y tai annedd sydd i'w creu yn anhysbys ac mae arwynebedd y safle yn fwy na 0.99 hectar | £1000 | - | - | £450.10 | £90.00 | £540.10 |
| **Codi adeiladau newydd** (ac eithrio tai annedd) | | | | | | |
| Adeilad Newydd; arwynebedd llawr gros yn ddim mwy na 999m$^2$ neu arwynebedd safle ddim mwy na 0.49 hectar | £250 | - | - | £112.50 | £22.50 | £135.00 |
| Adeilad Newydd; arwynebedd llawr gros yn fwy na 1000m$^2$ ond ddim mwy na 1999m$^2$ neu arwynebedd safle rhwng 0.5 i 0.99 hectar | £600 | - | - | £270.00 | £54.00 | £324.00 |
| Adeilad Newydd; arwynebedd llawr gros yn fwy na 1999m$^2$ neu arwynebedd safle yn fwy na 0.99 hectar | £1000 | - | - | £450.10 | £90.00 | £540.10 |
| **Newid Defnydd Materol** adeilad neu dir | | | | | | |
| Newid Defnydd; adeiladau -arwynebedd llawr gros yn ddim mwy na 999m$^2$ neu arwynebedd tir y safle ddim mwy na 0.49 hectar | £250 | - | - | £112.50 | £22.50 | £135.00 |
| Newid Defnydd; adeiladau -arwynebedd llawr gros yn fwy na 1000m$^2$ ond ddim mwy na 1999m$^2$ neu arwynebedd tir y safle yn 0.5 i 0.99 hectar | £600 | - | - | £270.00 | £54.00 | £324.00 |
| Newid Defnydd; adeiladau -arwynebedd llawr gros yn fwy na 1999m$^2$ neu arwynebedd tir y safle yn fwy na 0.99 hectar. | £1000 | - | - | £450.10 | £90.00 | £540.10 |
| **Cloddio a Gweithio Mwynau** | | | | | | |
| Cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithfeydd mwynau | £600 | - | - | £250 | £50 | £300 |
| **Datblygiad Gwastraff** | | | | | | |
| Datblygiad gwastraff | £600 | - | - | £250 | £50 | £300 |
| **Datblygiadau mawr iawn neu gymhleth** | | | | | | |
| Gall rhai achosion cymhleth ar wahân i'r uchod warantu trafodaeth CPC | I'w drafod trwy gyfrwng Cytundeb Perfformiad Cynllunio | | | Rhan o'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio | | |
| **Gwiriad Cydymffurfio** | | | | | | |
| Cadarnhad bod rhywbeth yn cydymffurfio ag amodau cynllunio (fesul caniatâd) a phob ymweliad safle / cyfarfod sy'n ymwneud gyda'r uchod (os yw'r swyddog o'r farn bod angen) | £52.50 (hyd at 1 awr o waith) | £10.50 | £63.00 (hyd at 1 awr o waith) | £52.50 (am bob awr ddilynol neu ran o awr) | £10.50 | £63.00 (am bob awr ddilynol neu ran o awr) |
| **Cytundeb Adran 106** | | | | | | |
| Paratoi, trafod a monitro'r cytundeb, cyfraniadau ariannol a gwaith. (Noder: Bydd ffioedd Cyfreithiol yn ychwanegol) | 6% o'r cyfraniad neu werth y gwaith | 20% | 6% o'r cyfraniad neu werth y gwaith | - | - | - |
| **NODER: Yn ychwanegol i "Ceisiadau Deiliad Ty" uchod - unrhyw ymholiad os oes angen caniatad ai peidio = £25.00** | | | | | | |

**Noder**: Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn penderfynu i ba gategori y bydd datblygiad yn perthyn. Rhoddir cyngor ysgrifenedig ar bob cais a gyflwynir. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn penderfynu os oes angen cyfarfod a / neu ymweliad safle yn ychwanegol i'r cyngor ysgrifenedig. Bydd y cyngor dilynol yn berthnasol yn unig i gynlluniau a neu gwybodaeth diwygiedig a gyflwynir ar gyfer yr un safle a datblygiad (nid cynlluniau newydd) o fewn 12 mis i ddyddiad derbyn y cais cyntaf.

# Ffurflen deisyfu cyngor cyn-ymgeisio statudol

Llenwch y ffurflen hon gan roi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am y gwasanaeth cyn-ymgeisio statudol neu am sut i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch awdurdod cynllunio lleol ar: 01766 771 000

## Enw'r Ymgeisydd, Cyfeiriad a Manylion Cysylltu

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Cyfeiriad: | |
| Cod Post: | |
| Rhif ffôn: | |
| Rhif Symudol: | |
| Cyfeiriad Ebost: | |

## Enw'r Asiant, Cyfeiriad a Manylion Cysylltu

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Cyfeiriad: | |
| Cod Post: | |
| Rhif ffôn: | |
| Rhif Symudol: | |
| Cyfeiriad Ebost: | |

## Disgrifiad o'r Cynnig

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer yr unedau newydd; (os yn berthnasol) | |
| Cynnydd yng ngofod y llawr (m2): | |

**Dychweler i: Cynllunio@Gwynedd.llyw.cymru neu ei hanfon i Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd. LL53 5AA**

## Cyfeiriad y Safle (os yw'n wahanol i gyfeiriad yr ymgeisydd

Address:

Postcode:

## Cynllun Lleoliad

Ticiwch y blwch isod i gadarnhau eich bod wedi cyflwyno cynllun sy'n dangos i ba dir y mae'r cais hwn yn berthnasol, ar raddfa a nodir ac yn dangos cyfeiriad y Gogledd

Rwyf wedi cynnwys cynllun lleoliad sy'n cydymffurfio â'r gofynion uchod: ☐

## Ffi

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cynnwys y ffi cywir gyda'r ffurflen deisyfu hon: ☐

Os nad ydych yn siŵr faint y dylech ei dalu, edrychwch yn yr atodlen ffioedd sydd ar wefan yr awdurdod cynllunio lleol.

Llofnod (ymgeisydd): ------------------------------------------------------------

neu

Llofnod (asiant): ------------------------------------------------------------

Dyddiad (DD/MM/YYYY): ------------------------------------------------

## Gwybodaeth Ychwanegol

I helpu i sicrhau bod eich awdurdod cynllunio lleol yn gallu rhoi'r ymateb gorau posibl i'ch deisyfiad cyn -ymgeisio, rydym yn eich annog i gyflwyno cymaint o wybodaeth ychwanegol ag sy'n bosibl gyda'r ffurflen hon. Rhestrwch unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych yn ei chyflwyno isod (defnyddiwch ddalen ar wahân os bydd angen):

**Dychweler i: Cynllunio@Gwynedd.llyw.cymru neu ei hanfon i Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd. LL53 5AA**

*Nodiadau canllaw ar gyfer cwblhau'r ffurflen:*

## 1 Eich manylion

Gallwch holi am gyngor cyn gwneud cais eich hun, neu gyflogi asiant. Os oes gennych asiant, byddwn yn anfon yr holl ohebiaeth iddo ef. Bydd rhaid cynnwys rhif ffôn y bydd modd ei ddefnyddio i gysylltu gyda'r ymgeisydd neu'r asiant yn ystod oriau swyddfa.

## 2 Disgrifiad o'r Cynnig

Disgrifiwch yn llawn beth yw'ch bwriad. Nodwch y nifer o loriau os yr ydych yn bwriadu codi adeilad newydd/estyniad a nifer y fflatiau/tai os yr ydych yn bwriadu cael datblygiad preswyl. Os yw'r datblygiad yn cynnwys newid defnydd yr eiddo, nodwch beth yw'r defnydd ar hyn o bryd yn y disgrifiad. Er enghraifft. "Codi 3 tŷ deulawr" neu "Newid defnydd tŷ i siop ar y llawr daear ac un fflat dwy ystafell wely ar y llawr cyntaf".

## 3 Lleoliad y datblygiad arfaethedig

Nodwch leoliad neu gyfeiriad safle'r datblygiad neu'r adeilad. Os nad oes gennych gyfeiriad post, rhowch ddisgrifiad clir a chywir o leoliad y safle.

## 4 Ffioedd

Codir tâl am gyngor cyn cyflwyno cais yn unol â'r Raddfa Ffioedd sydd wedi'i hamgáu yn Atodiad 1.

## 5 Gwybodaeth Arall

Darparwch unrhyw wybodaeth arall y dymunwch i ni ei chadw mewn golwg wrth ystyried eich bwriad/cais am gyngor. E.e. Defnydd y tir ar hyn o bryd (neu'r un olaf y gwyddys amdano)
Disgrifiwch beth yw defnydd tir ar hyn o bryd neu beth oedd defnydd olaf y safle. Os yw'r safle'n wag, byddai'n fuddiol gwybod pa bryd y daeth y defnydd olaf i ben.

## 6 Cynlluniau a gwybodaeth i gefnogi

Fan leiaf, rhaid cyflwyno'r wybodaeth a ganlyn gyda'r ffurflen:

- Cynllun lleoliad safle, yn adnabod y safle neu'r adeilad penodol yn glir, ac yn marcio ymyl safle'r datblygiad mewn coch. Rhaid i'r cynllun ddangos strydoedd, tir ac eiddo sydd gyferbyn, a chynnwys enwau a rhifau strydoedd
- Braslun, darlun neu ffotograff, fel sy'n briodol, gyda mesuriadau mynegol

Efallai y bydd angen mwy o fanylion pan fo'r datblygiad arfaethedig ar raddfa fawr. Efallai y bydd gofyn i chi gyflwyno:

- Cynllun bloc anodedig, i raddfa briodol, yn dangos perthynas safle'r datblygiad a'r cynnig i adeiladau presennol ac eiddo/ffiniau cyfagos;
- Braslun anodedig a/neu ddarluniau o'r cynigion datblygu;
- Ffotograffau o ansawdd da o'r safle a'r adeiladau cyfagos i ddangos y safle a'i gyd-destun uniongyrchol;
- Datganiad cynllunio/dylunio i ddisgrifio'r cynigion.

# Atodiad 3 : Cytundebau Perfformiad Cynllunio (CPC)

Mae CPC yn darparu fframwaith rheoli prosiect ar gyfer ymdrin a cheisiadau mawr iawn a chymhleth ac yn cael ei gydnabod fel arf ddefnyddiol i reoli cynigion datblygu. Mae'r manteision yn cynnwys:

- Cynnig sicrwydd o amserlen. Pan nad yw targed 8 neu 16 wythnos yn ymarferol/briodol mae datblygwyr ac asiantwyr yn gweld gwerth mewn cytundeb ffurfiol ar darged amgen.
- Sicrhau ymrwymiad gan bawb sy'n cyfrannu i amserlen gytunedig.
- Sefydlu Tîm Datblygu sy'n cynnwys yr holl gynrychiolwyr perthnasol ac sydd yn cael ei arwain gan Reolwr o'r Gwasanaeth Cynllunio
- Cynnig sicrwydd o ran y cyd-destun polisi a'r wybodaeth sydd ei angen i gefnogi'r cais.
- Cynghori ar sut i fynd ati i drefnu ymgynghoriad cyhoeddus sy'n casglu barn y gymuned leol yn ogystal â chymdogion.
- Sefydlu fframwaith glir ar gyfer gweinyddu, rhaglennu a rhoi cyngor ar ddatblygiad cymhleth yn ystod cyfnodau cyn cyflwyno cais, pan mae'r cais yn cael ei ystyried ac wedi i'r cais gael ei benderfynu.

**Ffioedd**

Bydd pob CPC yn destun ffi fydd yn daliadwy i'r Gwasanaeth Cynllunio ac yn adlewyrchu'r gwaith sydd angen ei gyflawni. (Ffioedd i'w cadarnhau)

**Priodoldeb PPA**

Ar gyfer y mwyafrif o gynigion datblygu mawr a/neu gymhleth, bydd y drefn cyngor cyn cyflwyno cais a'r defnydd o Dîm Datblygu yn ddigonol. Mae CPC wedi eu dylunio yn benodol i gyfarfod ac anghenion ceisiadau sydd yn debygol iawn o gymryd amser maith i'w penderfynu ac yn bendant mwy na'r targed cenedlaethol o 8 neu 16 wythnos. Anogir datblygwyr i gynnal trafodaeth buan gyda'r Gwasanaeth Cynllunio ynglŷn â'u cynigion i gytuno pa fath o wasanaeth sydd fwyaf priodol.

**Math o PPA**

Cydnabyddir y bydd cynnwys CPC yn amrywio ac i'r perwyl hwn bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn darparu templedi ar gyfer paratoi CPC sydd yn berthnasol i anghenion y datblygiad dan sylw.